*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/06/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (03303 132 683)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau am weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'i berfformiad mewn perthynas â'i amcanion yn ystod 2018/19.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Aeth y Gwasanaeth at 5,301 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Ngogledd Cymru yn ystod 2018/19.

3 Aeth y Gwasanaeth at 32% yn fwy o danau eilaidd yn 2018/19 nag yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd y cynnydd mawr yn y tanau - awyr agored gan mwyaf - ei briodoli i'r haf poeth a sych yn 2018.

4 Fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ostwng yn 2018/19 i'r lefel isaf a gofnodwyd erioed yng Ngogledd Cymru, ond yn drasig bu farw pump[1] o bobl a chafodd chwech o bobl anafiadau difrifol yn y digwyddiadau hyn.

5 Ers i'r Tîm Cymorth Cymunedol a'r gweithgareddau cyd-ymateb ddod i ben, aeth y Gwasanaeth at lai o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig yn 2018/19 nag yn y flwyddyn flaenorol, gan fod galwadau at argyfyngau nad ydynt yn danau wedi dychwelyd i lefelau tebyg i 2015/16.

6 Aeth y Gwasanaeth at 8% yn fwy o alwadau diangen yn 2018/19 nag yn y flwyddyn flaenorol. O fewn y cyfanswm hwnnw, roedd 14% o gynnydd yn y galwadau diangen a wnaed yn ddidwyll, ac efallai fod hyn yn gysylltiedig â mwy o wyliadwraeth a phryder gan y cyhoedd yn ystod y misoedd poeth a sych yn yr haf.

**ARGYMHELLIAD**

7 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad sydd yn Atodiad 1.

---

[1] Gallai'r ffigyrau marwolaethau oherwydd tân newid yn dilyn cwestau Crwner.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

8 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

9 Rhaid i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Ar gyfer prosesau cynllunio'r Awdurdod, mae'r rhain yn cael eu trin fel petaent yr un fath, sef bod amcanion gwella tymor byr hefyd yn gallu bod yn gamau tuag at gyflawni amcanion llesiant tymor hir.

**GWYBODAETH**

10 Bydd y ffigyrau gweithgarwch a pherfformiad sydd yn Atodiad 1 yn rhan o adroddiad yr Awdurdod ar ei heriau a'i lwyddiannau yn 2018/19. Mae monitro lefelau gweithgarwch a pherfformiad yr Awdurdod fel hyn yn cyfrannu hefyd at benderfyniadau cynllunio'r Awdurdod yn y dyfodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad o gymharu â'r amcanion gwella a llesiant sydd yng nghynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2018/19. |
| Cyllideb | Mae'n cynorthwyo i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o weithgarwch mewn digwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion sydd arno oherwydd lefelau amrywiol o weithgarwch mewn digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

**Atodiad 1**

# TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**DIWEDD BLWYDDYN**
**Ebrill 2018 – Mawrth 2019**

**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro ac nid ydynt wedi cael eu harchwilio. Gallent fod yn agored i'w newid.**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **GOLWG GYFFREDINOL AR OGLEDD Cymru** | 1 |
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Golwg gyffredinol ar yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORÏAU** | |
| Tanau, yn ôl categorïau (prif danau, tanau eilaidd, tanau simnai) | 3 |
| Tanau, yn ôl cymhelliad (damweiniol/bwriadol) | 4 |
| | |
| **MONITRO GAN GYMHARU AG AMCAN GWELLA A LLESIANT 'A'** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 5 |
| Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 6 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig, yn ôl categorïau | 7 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau Diangen, yn ôl categorïau | 8 |
| | |
| **GEIRFA** | 9 |
| | |

## 1.0 Golwg Gyffredinol ar Ogledd Cymru

1.1 Poblogaeth breswyl Gogledd Cymru yw tua 696,000 o bobl, sy'n byw mewn ardal sydd tua 6,150 cilometr sgwâr. Mae Gogledd Cymru yn cael ei diffinio gan arfordir, ardaloedd gwlediyg yn y gogledd-orllewin, ac ardaloedd mwy trefol yn y gogledd-ddwyrain.

1.2 Mae gan y rhanbarth boblogaeth sy'n heneiddio ac yn cynyddu, a disgwylir iddi gynyddu i 729,100 erbyn 2030. Disgwylir i ganran y boblogaeth sy'n 65 oed a hŷn gynyddu 26%, a disgwylir i nifer y bobl sy'n 85 oed a hŷn gynyddu 80%[*].

1.3 Wrth i'r boblogaeth gynyddu, cynyddu hefyd y mae nifer y cartrefi a'r adeiladau annomestig sy'n cael eu datblygu (gweler tabl 1 isod).

**Tabl 1. Amcangyfrifon poblogaeth ac eiddo[†]**

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth | 691,986 | 694,038 | 694,473 | 695,822 | 696,284 |
| Cartrefi | 321,061 | 322,643 | 324,299 | 326,047 | 326,710 |
| Eiddo annomestig | 28,334 | 28,839 | 29,175 | 29,563 | 30,365 |

[*] Cyhoeddwyd y ffigyrau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru: *http://www,wales,nhs/sitesplus/888/tudalen/874622*
[†] Cyhoeddwyd y ffigyrau ar StatsCymru yn: *https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue*


## 2.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

2.1 Yn ystod 2018/19, aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 5,301 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig. Roedd hyn 7% yn is nag yn y flwyddyn flaenorol, ac roedd yn gyson â'r cyfartaledd 3 blynedd.

2.2 Rhwng 2017/18 a 2018/19:

- fe wnaeth nifer y galwadau diangen gynyddu 8% (159 yn fwy o ddigwyddiadau);
- fe wnaeth nifer y tanau gynyddu 12% (253 yn fwy o ddigwyddiadau);
- fe wnaeth nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig ostwng 53% (836 yn llai o ddigwyddiadau).

**Siart 1. Nifer y tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt**




### 3.0 Tanau, yn ôl Categorïau

3.1 Aeth y Gwasanaeth at 2,267 o danau, sef cynnydd o 12% (253 yn fwy o danau) ac roedd hyn yn fwy na'r cyfartaledd 3 blynedd. Mae nifer y tanau simnai wedi aros yn gymharol isel, ac mae nifer y prif danau wedi parhau i ddangos tueddiad am i lawr. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y tanau eilaidd ac am y tro cyntaf ers 2015/16 bu mwy o danau eiladd nag o brif danau.

3.2 Aeth y Gwasanaeth at 32% yn fwy o danau eilaidd nag yn 2017/18. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r tanau hyn ddigwydd yn yr awyr agored, yn bennaf dros fisoedd yr haf yn ystod y cyfnod hir o dywydd sych a phoeth yn 2018.

**Siart 2. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt, yn ôl categorïau**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| TANAU SIMDDE | 173 | 149 | 141 | 145 | 154 |
| PRIF DANAU | 1,049 | 1,083 | 993 | 960 | 1,042 |
| TANAU EILAIDD | 915 | 776 | 893 | 1,175 | 861 |

## 4.0 Tanau, yn ôl Cymhelliad

4.1 Gan ddilyn patrwm y blynyddoedd blaenorol, cafodd tua dwy ran o dair o'r tanau eu cynnau'n ddamweiniol, a chafodd y gweddill eu cynnau'n fwriadol.

4.2 Er bod gostyngiad sylweddol yn nifer y tanau mewn cartrefi (o 422 i 360), roedd maint y cynnydd yn y tanau glaswelltir, coetir a chnydau (o 340 i 637) yn ystod y flwyddyn wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn nifer y tanau damweiniol a'r tanau bwriadol.

**Siart 3. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Tân (Damweiniol) | 1,435 | 1,415 | 1,377 | 1,623 |
| Tân (Bwriadol) | 702 | 593 | 650 | 657 |

**5.0 Monitro o gymharu ag Amcan Gwella a Llesiant A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

5.1 Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi gostwng, ac wedi cyrraedd y lefel isaf a gofnodwyd erioed yng Ngogledd Cymru (327), a thua hanner y nifer a oedd yn digwydd 20 mlynedd yn ôl.

5.2 Er bod cynnydd blynyddol yn nifer y cartrefi yng Ngogledd Cymru, mae'r Gwasanaeth wedi mynd at 15% (59) yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi yn 2018/19 nag yn 2017/18, ac at 24% (105) yn llai nag yn 2016/17. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y tanau bwriadol mewn cartrefi 2018/19 (33 yn llai). Mae'r tueddiad hwn am i lawr yn adlewyrchu'r pwyslais y mae'r Awdurdod yn ei roi ar addysg diogelwch tân yn y cartref ac ar waith ataliol.

**Siart 4. Nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Tân (Damweiniol) | 383 | 432 | 386 | 327 |
| Tân (Bwriadol) | 43 | 34 | 36 | 33 |

## 6.0 Anafusion oherwydd Tanau Damweinol mewn Cartrefi

6.1 Er y llwyddwyd i ostwng nifer y tanau mewn cartrefi eto yn 2018/19, fe wnaeth pump o bobl golli eu bywydau* mewn pump o danau damweiniol mewn cartrefi, a chafodd chwech o bobl eraill eu hanafu'n ddifrifol. Mae hyn yn pwysleisio bod gweithgareddau ataliol yn parhau'n bwysig.

6.2 Roedd nifer yr anafusion a gafodd fân anafiadau ac archwiliadau rhagofalus lawer yn is yn 2018/19. O'i gymharu ag yn 2017/18, fe wnaeth nifer y mân anafiadau ostwng 72% (28) ac fe wnaeth nifer yr archwiliadau rhagofalus ostwng 60% (19).

**Siart 5. Nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Marwolaeth | 3 | 4 | 1 | 5 |
| Anafiadau - bychan | 42 | 25 | 39 | 11 |
| Anafiadau - difrifol | 5 | 8 | 2 | 6 |
| Archwiliad rhagofalus | 54 | 49 | 32 | 13 |
| Cymorth cyntaf | 45 | 42 | 25 | 27 |

* Mae angen i'r Crwner gadarnhau beth achosodd dwy farwolaeth.

## 7.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig


7.1 Gan ein bod wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn mentrau ar y cyd, i ymateb i argyfyngau nad ydynt yn danau megis cyd-ymateb, y Tîm Cymorth Cymunedol, Ar Goll o Gartref a Dull Mynediad, mae nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi cynyddu.

7.2 Ers rhoi'r gorau i'r gweithgareddau cyd-ymateb ym mis Medi 2017 ac i'r Tîm Cymorth Cymunedol ym mis Mai 2018, fe wnaeth nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig ostwng i gyd-fynd fwy â lefelau 2015/16 a chyn hynny.

7.3 Rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Mawrth 2019, aeth y Gwasanaeth at 48 o ddigwyddiadau "Dull Mynediad", i gynorthwyo gwasanaethau brys eraill i gael mynediad (e.e. i drin claf wedi cwympo). Dyma fenter gydweithredol newydd nad oedd wedi cael ei chynnal yn y blynyddoedd blaenorol.

7.4 Mae nifer y digwyddiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd wedi aros yn gymharol gyson, tra bo digwyddiadau gwasanaeth arbennig eraill (heblaw'r mentrau cydweithredol y cyfeirir atynt uchod) wedi bod yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**Siart 6. Nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig, yn ôl categorïau**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Digwyddiad Meddygol - Cydymatebwr | 23 | 160 | 86 | 0 |
| Ar goll o Gartref | 1 | 23 | 24 | 32 |
| Dulliau Mynediad | 0 | 0 | 0 | 48 |
| Tîm Cynorthwyo Cymunedol - helpu hefo codymau | 0 | 360 | 845 | 120 |
| GTFf | 209 | 212 | 204 | 220 |
| Arall heblaw GTFf (ddim yn cynnwys | 506 | 435 | 431 | 334 |

## 8.0 Galwadau diangen

8.1 O ganlyniad i newid polisi'r Awdurdod ar ymateb i alwadau a ddaw gan Larymau Tân Awtomatig, cafwyd gostyngiad sydyn i ddechrau yn nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt. Ers 2015/16, fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol, gyda'r Gwasanaeth yn mynd at 14% yn fwy o alwadau diangen yn 2018/19 nag yn 2015/16.

8.2 Mae nifer y galwadau diangen oherwydd Larymau Tân Awtomatig wedi aros yn gymharol gyson dros y tair blynedd nesaf (gan amrywio 2% neu 3% yn unig bob blwyddyn), ond mae nifer y galwyr didwyll sy'n rhoi gwybod i ni am danau nad ydynt yn bodoli wedi cynyddu'n fawr yn 2018/19, a hynny mae'n debyg oherwydd bod mwy o ymwybyddiaeth yn ystod yr haf poeth a sych yn 2018.

**Siart 7. Nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl categorïau**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 1,972 | 966 | 1,147 | 1,112 | 1,133 |
| Didwyll | 1,175 | 976 | 940 | 957 | 1,093 |
| Maleisus | 77 | 51 | 48 | 39 | 41 |
| Cyfanswm | 3,224 | 1,993 | 2,135 | 2,108 | 2,267 |

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |